

**DEDDF PLANT A PHOBL IFANC 1963, adran 37**  
**Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 (fel y'i diwygiwyd)**

# Cais am Drwydded

(Sylwch – Ar ôl llenwi'r ffurflen hon, mae'n bwysig ei bod yn cyrraedd yr awdurdod trwyddedu 21 diwrnod o leiaf cyn y caiff y perfformiad dan sylw ei gyflwyno am y tro cyntaf, neu gall yr awdurdod trwyddedu wrthod rhoi trwydded)

## Cais i'r Cyngor

### RHAN 1

(I'W LLENWI GAN Y PERSON SY'N GWNEUD CAIS)

- Yr wyf, drwy hyn, yn gwneud cais am drwydded o dan adran 37 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 sy'n rhoi caniatâd i'r plentyn (*rhowch enw'r plentyn*)
  - \* (1) gymryd rhan mewn perfformiad
  - \* (2) cymryd rhan mewn chwaraeon
  - \* (3) gweithio fel model

(\* dilëwch fel y bo'n briodol)

naill ai ar y dyddiadau a nodir yn eitem 4(i) yn yr Atodiad i'r Rhan hon neu ar y diwrnodau ac yn ystod yr amseroedd a nodir yn eitem 4(ii) yn yr Atodiad <sup>(a)</sup>.
- Rwy'n tystio bod y manylion yn yr Atodiad, hyd y gwn, yn gywir.
- Rwy'n amgáu'r canlynol:-
  - tystysgrif geni'r plentyn neu dystiolaeth arall o oed y plentyn;
  - dau brint o'r plentyn, yr un fath â'i gilydd a heb eu mowntio, a gymerwyd yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y cais hwn;
  - copi o'r cytundeb, y cytundeb drafft neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys manylion y cytundeb sy'n ymwneud ag ymddangosiad y plentyn mewn perfformiadau neu sy'n ymwneud â'r gweithgaredd y mae'r drwydded yn berthnasol iddo;

\* (d) datganiad o dan adran 38(1) (a) neu (b) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963.
- Os caf drwydded, rwy'n deall y bydd yn amodol ar gyfyngiadau ac amodau Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 (fel y'u diwygiwyd) ac unrhyw amodau eraill y bydd yr awdurdod lleol neu'r awdurdod trwyddedu am eu cynnwys o dan y Rheoliadau hyn.

Llofnod \_\_\_\_\_ Dyddiad \_\_\_\_\_  
(y person sy'n gwneud cais)

Enw llawn \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_ Cod Post: \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_ Rhif ffôn \_\_\_\_\_

\*Dilëwch os yw'n amherthnasol

**SYLWCH:-** Os bydd unrhyw un yn methu cadw at unrhyw un o'r amodau sy'n gysylltiedig â thrwydded neu'n gwneud datganiadau nad ydynt yn wir, boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol, wrth wneud cais am drwydded, mae'n bosibl y caiff ddirwyo na fydd yn fwy na £1000 neu ei g/charcharu am gyfnod na fydd yn hirach na 3 mis neu'r ddau (adran 40 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963).

(a) Dim ond y BBC, deiliad trwydded Channel 3, darlledwr neu gwmi darlledu annibynnol gaiff rhoi trwydded sy'n nodi nifer y diwrnodau y caiff plentyn berfformio a'r cyfnod, na fydd yn hirach na 6 mis, y caiff y perfformiadau hynny eu cynnal, neu a gaiff roi trwydded i ganiatáu i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad i'w recordio (mewn pa ddull bynnag) er mwyn ei ddefnyddio mewn ffilm y bwriedir i'r cyhoedd i'w gweld.

# ATODIAD I RAN 1

## MANYLION YN YMWNEUD Â'R PERFFORMIAD Y BYDD Y PLENTYN YN CYMRYD RHAN YNDDO

1. Enw a natur <sup>(a)</sup> y perfformiadau neu'r gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer. 

---
2. Disgrifiad o'r rhan sydd gan y plentyn. 

---
3. Y man lle cynhelir y perfformiadau neu'r gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer <sup>(b)</sup>. 

---
4. (i) Dyddiadau'r perfformiadau neu'r gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer, neu 

---

  
(ii) Nifer y diwrnodau, a'r cyfnod, y bydd y plentyn yn cymryd rhan yn y perfformiadau neu'r gweithgareddau (c). 

---
5. Amser a hyd y perfformiadau neu'r gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer. 

---
6. Am ba hyd, yn fras, y bydd y plentyn yn ymddangos yn y perfformiadau neu'r gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer. 

---
7. Sawl gwaith (os o gwbl) fydd y plentyn yn cymryd rhan fin nos yn y perfformiadau neu'r gweithgareddau yr ydych yn ceisio caniatâd ar eu cyfer gan yr awdurdod lleol o dan Reoliad 30 yn Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968. Nodwch -  
(i) nifer y diwrnodau, yn fras 

---

  
(ii) am ba hyd y bydd yn cymryd rhan, yn fras. 

---
8. Y swm o arian y bydd y plentyn yn ei ennill wrth gymryd rhan yn y perfformiadau neu'r gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer. 

---
9. Os oes angen trwydded ar gyfer perfformiad, pa drefniadau sydd ar y gweill o ran ymarferion yn ystod y 14 diwrnod cyn y perfformiad dan sylw? Ar gyfer pob ymarfer, nodwch -  
(i) y dyddiad, 

---

  
(ii) y lle, 

---

  
(iii) hyd yr ymarfer, yn fras. 

---
10. Y diwrnodau, neu'r hanner diwrnodau, y mae angen i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol i gymryd rhan yn y perfformiadau neu'r gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer, neu'r ymarferion. 

---
11. Y trefniadau sydd ar y gweill (os oes trefniadau) o dan Reoliad 10 o Ddeddf Plant (Perfformiadau) 1968 ar gyfer addysgu'r plentyn yn ystod cyfnod y drwydded - nodwch -  
(i) enw a chyfeiriad yr ysgol 

---

  
(ii) (a) enw, cyfeiriad a chymwysterau'r athro/athrawes breifat, 

---

  
(b) lle y bydd y plentyn yn cael ei ddysgu, 

---

  
(c) y rhaglen addysg, 

---

  
(ch)nifer y plant eraill a fydd yn cael eu dysgu gan yr athro/athrawes breifat ar yr un pryd, 

---

  
(d) a fydd y plentyn yn cael ei ddysgu am y cyfnod sy'n ofynnol o dan Reoliad 10(4)(a) o Reoliad(4)(b). 

---
12. Enw'r awdurdod lleol (os yw'n berthnasol) a gymeradwyodd benodiad yr athro/athrawes breifat at ddibenion y drwydded. 

---
13. Enw a chyfeiriad y metron arfaethedig a disgrifiad ohoni. 

---
14. Enw'r awdurdod lleol (os yw'n berthnasol) a gymeradwyodd benodiad y metron at ddibenion y drwydded. 

---

  

---

  

---

(a) Natur y perfformiadau neu'r gweithgareddau e.e. theatr, ffilm, teledu etc.  
(b) Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith y bydd y plentyn yn ei wneud ar leoliad.  
(c) Dim ond y BBC, deiliad trwydded Channel 3, darlledwr neu gwmni darlledu annibynnol gaiff rhoi trwydded sy'n nodi nifer y diwrnodau y caiff plentyn berfformio a'r cyfnod, na fydd yn hirach na 6 mis, y caiff y perfformiadau hynny eu cynnal, neu a gaiff roi trwydded i ganiatáu i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad i'w recordio (mewn pa ddull bynnag) er mwyn ei ddefnyddio mewn ffilm y bwriedir i'r cyhoedd i'w gweld.



7. Manylion pob perfformiad nad oedd angen trwydded ar eu cyfer ac y cymerodd y plentyn ran ynddynt yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais hwn, gan nodi ym mhob achos -

- (i) y dyddiad,
- (ii) y lle,
- (iii) natur y perfformiad,
- (iv) enw'r person a oedd yn gyfrifol am y cynhyrchiad.

---

---

---

---

8. Dyddiadau (os yw'n berthnasol) y bu'r plentyn yn absennol o'r ysgol yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais hwn oherwydd ei fod yn cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd.

---

9. Manylion unrhyw fath o waith y bydd y plentyn yn cael ei gyflogi i'w wneud yn ystod y 28 diwrnod cyn diwrnod y perfformiad cyntaf neu'r gweithgaredd cyntaf, gan nodi -

- (i) natur y gwaith,
- (ii) diwrnodau gwaith y plentyn,
- (iii) oriau gwaith y plentyn.

---

---

---

10. Manylion yn ymwneud â'r symiau yr enillodd y plentyn yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais hwn gan nodi -

- (i) a yw'r symiau'n ymwneud â pherfformiad neu weithgareddau yr oedd angen trwydded ar eu cyfer, perfformiadau nad oedd angen trwydded ar eu cyfer neu fath arall o waith,
- (ii) maint y symiau a enillodd,
- (iii) y dyddiad y cafodd y plentyn ei dalu,
- (iv) enw a chyfeiriad y person a dalodd y plentyn a disgrifiad ohono.

---

---

---

---

---

---

Rwy'n cefnogi'r cais hwn am drwydded

Rwy'n tystio bod y manylion uchod, hyd y gwn, yn gywir ac os caf drwydded, rwy'n deall y bydd yn amodol ar gyfyngiadau ac amodau Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 (fel y'u diwygiwyd) ac unrhyw amodau eraill y bydd yr awdurdod lleol neu'r awdurdod trwyddedu am eu cynnwys o dan y Rheoliadau hyn.

Llofnod \_\_\_\_\_ Dyddiad \_\_\_\_\_  
(rhiant)

Enw llawn \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_ Cod Post: \_\_\_\_\_

Perthynas â'r plentyn \_\_\_\_\_ Rhif ffôn \_\_\_\_\_

*SYLWCH:* - Os bydd unrhyw un yn methu cadw at unrhyw un o'r amodau sy'n gysylltiedig â thrwydded neu'n gwneud datganiadau nad ydynt yn wir, boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol, wrth wneud cais am drwydded, mae'n bosibl y caiff ddirwy na fydd yn fwy na £1000 neu ei g/charcharu am gyfnod na fydd yn hirach na 3 mis neu'r ddau (adran 40 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963).

**NODYN I RIENI** - Rhowch wybod i ysgol eich plentyn am y cais hwn, yn enwedig o ran gofyn am ganiatâd i fod yn absennol i gymryd rhan perfformiadau/ymarferion.

\* Nodwch a ydych yn rhiant, yn warcheidwad neu'n berson sydd â gofal neu reolaeth dros y plentyn ar hyn o bryd